# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Mehefin 2014 i'w hateb ar 24 Mehefin 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer tyfu economi Cymru? OAQ(4)1743(FM)

2. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r broses o graffu ar wasanaethau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus? OAQ(4)1744(FM)

3. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reolaeth ystâd y GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1745(FM)

4. **Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio annog pobl ifanc yn benodol i beidio ag ysmygu? OAQ(4)1747(FM)

5. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth ffydd yng Nghymru? OAQ(4)1736(FM)

6. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo diogelwch ar y rhyngrwyd ar gyfer plant? OAQ(4)1737(FM)

**7. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa gamau a fydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau y glynir at bolisi Llywodraeth Cymru ar glustogfeydd o gwmpas safleoedd glo brig? OAQ(4)1752(FM)

**8. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella iechyd menywod yng Nghymru? OAQ(4)1755(FM)

**9. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog  ddatganiad am bolisi ynni Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1746(FM)**W**

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella amseroedd aros y GIG ar gyfer trigolion Canol De Cymru? OAQ(4)1748(FM)

**11. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Cyflymu Cymru? OAQ(4)1754(FM)

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i gynyddu nifer y gwelyau gofal dwys cardiaidd yn Ysbyty Treforys yn Abertawe? OAQ(4)1739(FM)

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith ar ddemocratiaeth leol os na fydd etholiadau i bob awdurdod lleol yn cael eu cynnal yn yr un flwyddyn? OAQ(4)1751(FM)

**14. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gysylltiadau trafnidiaeth rheilffyrdd yn ne Cymru? OAQ(4)1741(FM)

**15. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa asesiad a wnaeth y Prif Weinidog o werth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gymunedau lleol yng Nghymru? OAQ(4)1738(FM)